Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Dr Dai Lloyd
Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA
SeneddHealth@Assembly.Wales

Chwefror 11, 2019

Annwyl Dai,

Gwahanu'r rhywiau wrth ymgymryd â chwaraeon yn yr ysgol

Diolch am eich llythyr ynglŷn â gwahanu'r rhywiau wrth ymgymryd â chwaraeon yn yr ysgol.

Fel y trafodwyd gyda staff eich Pwyllgor, mae ein dadansoddiad cyfreithiol ein hunain yn cefnogi safbwynt eich Adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn llwyr o ran gweithgareddau chwaraeon cystadleuol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu o ran buddion, cyfleusterau a gwasanaethau. Fodd bynnag, mae Adran 195 yn cynnwys eithriad sy'n caniatáu gweithgareddau chwaraeon un rhyw o:

> 'a competitive nature in circumstances in which the physical strength, stamina or physique of average persons of one sex would put them at a disadvantage compared to average persons of the other sex…. In considering whether a sport, game or other activity is gender-affected in relation to children, it is appropriate to take account of the age and stage of development of children who are likely to be competitors.'

Felly, caniateir ysgol i wahanu yn ôl rhywedd wrth chwarae chwaraeon cystadleuol os bodlonir y meini prawf hyn. Mae'n llai tebygol o allu cyfiawnhau gwahanu o ran chwaraeon i blant iau.

Fodd bynnag, dylai ysgolion ganiatáu gweithgareddau chwaraeon heb wahanu'r rhywiau pan nad yw'r chwaraeon o natur gystadleuol - er enghraifft, gwersi ymarfer corff cyffredinol. Bydd asesiad risg yn angenrheidiol i sicrhau ei fod yn ddiogel.

Pan gaiff y rhywiau eu gwahanu ar gyfer gweithgaredd chwaraeon, byddai rhaid i'r ysgol ganiatáu plant o'r rhyw arall gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon cymharol.

Gobeithio bydd hwn yn eich cynorthwyo gyda'ch Ymchwiliad i weithgareddau corfforol plant a phobl ifanc. Edrychwn ymlaen at ddarllen eich adroddiad sydd ar y gweill.

Os gallwn helpu'n bellach, rhowch wybod i ni.

Yr eiddoch yn ddiffuant,



Ruth Coombs, Pennaeth Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol